***Statws** This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 No. 267

## Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Addasu Cyfrifiadau Angenrheidiol) (Cymru) 2009

**Cyfrifo anghenion cyllideb (awdurdodau bilio)**

**2.** Mae adran 32 o Ddeddf 1992 yn effeithiol fel pe bai—

(a) yn is-adran (3)(a)(**1**), y geiriau "or relevant special grant" wedi eu hepgor; a

(b) ar ôl is-adran (12), yr is-adran ganlynol wedi ei mewnosod(**2**)—

"(12A) In this section and section 33 below—

(a) references to sums payable for the financial year in respect of redistributed non-domestic rates are references to sums so payable in accordance with the Local Government Finance Report (No.1) 2009—2010 (Final Settlement — Councils) approved by resolution of the National Assembly for Wales pursuant to section 84H(2)(**3**) of, and paragraph 11B(1)(**4**) of Schedule 8 to, the Local Government Finance Act 1988 on 13 January 2009; and

(b) references to sums payable for the financial year in respect of revenue support grant are references to sums so payable in accordance with that report.".

(**1**) Diwygiwyd adran 32(3)(a) gan baragraff 4 o Atodlen 12 i Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994, Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Addasu Cyfrifiadau Angenrheidiol a Chronfeydd) 1994 (O.S. 1994/246) a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Addasu Cyfrifiadau Angenrheidiol a Chronfeydd) 1995 (O.S. 1995/234). Fe'i diwygiwyd hefyd mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol 2008—2009 gan reoliad 2(a) o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Addasu Cyfrifiadau Angenrheidiol) (Cymru) 2008 (O.S. 2008/476 (Cy.42)).

(**2**) Mewnosodwyd adran 32(12A) mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol 2008—2009 gan reoliad 2(b) o O.S. 2008/476 (Cy.42).

(**3**) 1988 p.41; amnewidiwyd adran 84H (am adran 84H fel y'i mewnosodwyd gan adran 40(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (p.26) ac Atodlen 2 iddi) gan erthygl 3 o Orchymyn Deddf Llywodraeth Cymru (Addasiadau Canlyniadol a Darpariaethau Trosiannol) 2007 (O.S. 2007/1388) ac Atodlen 1 iddo.

(**4**) Amnewidiwyd paragraff 11B(1) (am baragraff 11B(1) fel y'i mewnosodwyd gan adran 40(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, ac Atodlen 2 iddi) gan erthygl 3 o O.S. 2007/1388, ac Atodlen 1 iddo.